

# BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 3 – Hydref 2013

## Nodyn Golygyddol


Roedd ein 'pererindod' i ardal Ann Griffiths ym mis Mai yn llwyddiannus iawn. Cafwyd adroddiad a lluniau o'r achlysur yn rhifyn y *Gwyllydydd* am Mehefin-Gorffennaf 2013. Calonogol iawn oedd gweld dros 30 yn bresennol. Rydym yn ddiolchgar dros ben i Robin Jones am ei holl waith yn trefnu'r achlysur ac i'r rhai oedd yn siarad â ni yn ystod y dydd. Cawsom gyf-raniadau arbennig o ddi-ddorol gan Nia Rhosier a'r Parch. Gwyndaf Richards. Ar ddiwedd ein taith aethom i Gapel Coffa Ann Griffiths yn Nolanog lle cawsom gwasanaeth hyfryd dan arweiniad y Parch. Peter Wyn Williams gyda chymorth y Parch. Gwyndaf Richards a'r Parch. Gwilym O. Jones. Methodist Calfaidd, wrth gwrs, oedd Ann Griffiths ond mae ei hemynau wedi bendithio ac ysbrydoli ni'r Wesleaid ar ein pererindod trwy'r byd hwn a rhoddwn ddiolch i Dduw amdani.

Wedi achlysur mor hyfryd gyda chymaint o gefnogaeth diau y byddwn yn ceisio trefnu rhywbeth tebyg eto. Os felly byddwn yn cyhoeddi'r manylion yn y *Gwyllydydd*. Gyda rhai aelodau newydd wedi ymuno â'r pwyllgor yn ddiweddar edrychwn ymlaen yn hyderus at y flwyddyn nesaf.

## Y Parchedig W. R. Jones

Un o enwogion Ceredigion oedd W. R. Jones, a anwyd yn Esgermwyn, Ffair-rhos, sef rhan o hen blasdy a adeiladwyd gan gwmni gwaith mwyn yn Pont-rhyd-y-groes, ar 9 Chwefror 1828. Ei rieni oedd Jacob Jones, saer a cherddor, a Sarah, merch Capten Richard Oliver, Pantgwyn, rheolwr gwaith mwyn yn Esgermwyn a'r Glogfach. Pan oedd W. R. yn ddeuddeg oed symudodd ei dad o Esgermwyn i fyw ar dyddyn a adawyd iddo mewn ewyllys gerllaw Ysbyty Ystwyth, Ceredigion. Wedi iddo gyrraedd ei ddeunaw mlwydd oed cafodd ei hun yn Nantyglo, Mynwy, yn dilyn yr un crefft â'i dad. Ymunodd â'r Wesleaid yno er mai aelod o'r Eglwys ydoedd cyn hynny. Aeth rhyw ddeunaw mis heibio cyn iddo benderfynu dychwelyd yn ei ôl i Bont-rhyd-y-groes. Yng ngwanwyn 1848, ac yntau erbyn hyn yn Rhymni, dechreuodd bregethu ond ni pharodd hynny'n hir cyn troi'n ôl unwaith eto i Bont-rhyd-y-groes i wneud paratodau i ymfudo i'r America gyda'i rieni.

Yn Ionawr 1849 yr oedd W. R. Jones a'i deulu wedi cartrefu yn Milwaukee, Wisconsin, lle bu'n dilyn ei grefft fel saer am




Prifysgol Lawrence,  
Appleton, Wisconsin

ddwy flynedd tra'n pregethu am yr un cyfnod. Cafodd ei dderbyn fel myfyriwr i Brifysgol Lawrence, Appleton, Wisconsin. Oherwydd ei anwybodaeth ef am amgylchiadau y wlad yn y blynyddoedd cynnar hynny yn Wisconsin, torrodd ei galon a rhoddodd i fyny ei fwriad o fynd i'r weinidogaeth. Ymddangosodd llythyr ym mhapur newydd *Y Drych* ganddo yn dweud iddo gael ei siomi gan 'eraill' oherwydd yr amharch a ddangoswyd tuag ato fel pregethwr. Yn y cyfamser priododd â Miss Jane James, merch o Bontrhydfendigaid, oedd yn chwaer i John James, blaenor yn Milwaukee. Ganwyd iddynt wyth o blant.

Yn Awst 1854 ymunodd W. R. Jones â Chynhadledd Methodistiaidd Wisconsin, a'r flwyddyn canlynol cafodd ei ordeinio'n weinidog ar Eglwys Gymraeg Racine, Wisconsin (1855-58). Wedi hynny bu'n gofalu am Eglwys Cambria, Wisconsin, cyn dychwelyd drachefn i Racine. (Hyd y gwn t'oedd yna ddim achos fel y cyfryw gan y Wesleaid Cymraeg yn Racine na Cambria. A oedd hi'n anarferol i weinidog Wesla gymeryd gofal eglwysi o enwad arall tybed?) Yn ddiweddarach aeth W. R. Jones yn fyfyrwr i Athrofa Beiblaidd Garrett, lle bu'n dilyn cwrs o bedair blynedd. Oherwydd iddo orweithio darfu'r tymor flwyddyn yn gynharach. Roedd wedi ei dderbyn yno yn 1862 a graddio yn 1864. Wedi hynny bu ym Mhrifysgol Evanston, Illinois, lle yr amlgodd ei hun drwy ennill y diploma uchaf yn y dosbarth cyntaf, a hefyd cael ei gydnabod fel yr areithydd gorau yn ei ddsbarth. Ar ôl hynny rhoddwyd ef mewn gofal Eglwys Saesneg Bristol, Wisconsin.

Cyhoeddwyd amryw o erthyglau W. R. Jones yn *Y Drych*, megis ar bynciau fel: hawliau benywod, dirwest a datblygiaeth. Anrhydeddwyd ef ar sawl achlysur pan ddewiswyd ef i bregethu yn rhai o uchelwyliau y Gynhadledd Fethodistaidd. Yr oedd yn un o dri o wahanol enwadau a gafodd eu dewis i areithio ar adeg Dathlu Canmlwyddiant George Washington yn 1889. Dewisodd yn destun i'w araith: 'The Religious Development of Our Country the Last Hundred Years'. Yr oedd yn gefnogwr cryf dros dderbyn merched i'r Gynhadledd; dros estyniad amser gweinidog i aros pum mlynedd; dros ehangu terfynau'r cyngor; a thros drefnu a phenodi geinidogion i'w cylchdeithiau yn yr Unol Daleithiau. Oherwydd cyflwyr iechyd ei briod ymddeolodd yn 1893 a symudodd i'r Gorllewin i Pasadena, California, ac yno y bu ef farw ar 10 Ionawr 1899.



Athrofa Beiblaidd  
Garrett

## William Roberts, Maentwrog

Mae Maentwrog yn bentref tawel, tua 4 milltir i'r de o Flaenau Ffestiniog ac 8 milltir i'r gogledd o Harlech. Syrthiodd yr awdur Saesneg, Thomas Love Peacock, mewn cariad â'r lle yn ystod ymweliad yn 1810: 'This is a delightful spot, enchanting even in the gloom of winter: in summer it must be a terrestrial paradise'. Roedd fy nhad, y Parch. William J. Roberts, yn meddwl y byd ohono hefyd. Ymysg ei drysorau roedd ffotograff sepiâ mewn ffrâm o'r pentref yn edrych ar draws y prif ffordd gyda'r capel Wesleidd yn y tu blaen, a phlât gyda llun o'r pentref yn dangos Eglwys Sant Twrog o ochr arall yr Afon Dwyryd. Ar ben hynny, yn ei ddyddiadur am 1933, deuthum yn ddiweddar ar draws doriad o bapur newydd y *Daily Sketch*. Mae'n cynnwys cerdd am Ddyffryn Maentwrog wedi'i ysgrifennu yn ei harddull digymar ei hun gan y farddones boblogaidd Wilhelmina Stich (sef ffugenw Ruth Collie). Mae'r cerdd yn dechrau:



When beauty's mentioned I will think of thee,  
For now I know what beauty is, at last;  
And in the store house of my memory,  
I'll hold thee fast.

Ac ymlaen felly am ddwsin o linellau byr eu gwynt. Mae'n amlwg bod fy nhad, a oedd ar y pryd yn byw yn ne Cymru, wedi cael ei ysbrydoli gan y gerdd hon.

Er bod ei holl weinidogaeth yn ystod y 1950au yng Nghaer cymerai bob cyfle i ddychwelyd i ymweld â pherthnasau agos ym Mlaenau Ffestiniog lle cafodd ei eni. O'r dref y byddai'n teithio yn aml ar fws Crosville i Faentwrog er mwyn ymweld â dwy fodryb ym Mron-y-Wern, bwthin yng nghanol y pentref ar bwys siop y pentref. Fel bachgen byddwn yn aml yn mynd gydag ef ac yn ddi-ffael byddem yn galw i mewn i'r Eglwys a'r fynwent. Ni wn faint o weithiau mae fy nhad wedi adrodd i mi hanes Maen Twrog sy'n sefyll gerllaw drws y clochdy ac yn dangos o hyd ôl llaw y cawr Twrog oedd wedi'i daflu o ben y bryn i ddinistrio allor baganaidd islaw. Er nad oedd ei enw yn golygu dim i mi ar y pryd dysgais hefyd fod yr offeiriad a bardd nodedig Edmwnd Prys wedi'i gladdu yn yr eglwys.

Roedd fy nhad yn mwynhau edrych o gwmpas mynwentydd ac yn arbennig mynwent Maentwrog lle roedd cenedlaethau o'i berthnasau'n gorwedd, ond yn anochel byddem yn gorffen wrth gofeb hardd oedd yn sefyll yn erbyn y wal yng nghefn y fynwent. Byddwn yn cael fy atgoffa mai hon oedd bedd fy hen daid William Roberts (1845-1909), a alwyd yn gyffredinol William Roberts, Maentwrog, pregethwr cynorthwyol poblogaidd gyda'r Methodistiaid Wesleidd yn ystod blynyddoedd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Ar y garreg fedd cafwyd y geiriau 'Codwyd y maen hwn gan ei edmygwyr lliosog'. Wrth imi sefyll yno byddwn yn meddwl pa mor drawiadol oedd cofeb William Roberts o gymharu â'r rhai i aelodau o deulu Oakley, cymwynaswyr lleol a pherchnogion y chwarel lechi fwyaf ym Mlaenau Ffestiniog.

Pwy oedd y dyn hwn? Er fod ei enw fel pregethwr yn gysylltiedig â Maentwrog roedd ei wreiddiau ym Mhenmachno. Ganwyd William Roberts yn Nant-y-Rhiw, Penmachno ar 13 Tachwedd 1845, yr ieuangaf o bump o blant Thomas Roberts, yn 'slate inspector' yn ôl Censws 1851, a'i wraig Ellen. Yn 1853 symudodd y teulu i Faentwrog. Er i'w fam farw mewn dwy flynedd cafodd y magwraeth gorau a allai ei dad, a oedd erbyn hyn yn weithiwr fferm, ei roi iddo. Yn ddynd duwiol, sicrhaodd Thomas Roberts fod ei fab yn cael cartref Cristnogol gan fynd


ag ef i'r capel Wesleidd bob Sul. Er i William dderbyn mis yn unig o addysg ffurfiol gwnaeth ei frawd hynaf Robert ei orau i lenwi rhai o ddiffygion ei addysg. Mewn gwirionedd tyfodd William i fyny'n gyflym, gan ddechrau gweithio yn un o chwareli llechi Blaenau Ffestiniog pan yn 10 oed. Parhai i weithio yno am 35 o flynyddoedd gan brofi ei hun yn weithiwr ardderchog ac yn gydweithiwr dymunol. Gyda'r blynyddoedd, a braidd yn erbyn ei ddymuniadau ei hun, daeth yn llefarydd effeithiol ar ran ei gyd-weithwyr mewn trafodaethau am amodau gwaith gyda'r rheolwyr yn eu gweithle.

Ond nid hwnnw oedd ei wir alwad. Fe'i dderbyniwyd yn 12 oed i aelodaeth o'r capel Wesleidd lleol a dangosodd ymrwymiad cadarn i ddysgeidiaeth yr eglwys. Er i'w gyfeillion ei annog i ymrwymo ei hun yn llawnach i bregethu'r Efyngyl, oherwydd ei swildod roedd yn 34 oed cyn iddo gael ei berswadio i newid cwrs ei fywyd. Roedd hwn yn gam pwysig o ystyried ei fod wedi priodi â Grace Evans o Lanwnda yn 1869 ac erbyn diwedd y 1870au roedd ganddynt deulu a fyddai'n cyrraedd cyfanswm o naw o blant. Yn ôl William Roberts cafodd ei berswadio gan bregethwr cynorthwyol poblogaidd ym Mlaenau Ffestiniog o'r enw Humphrey Humphreys, a oedd erbyn hynny ar ei wely angau, i'w ddilyn fel pregethwr. Pregethodd yn gyntaf fel pregethwr cynorthwyol yn 1879 yng nghapel Seilo, Llan Ffestiniog (yr union gapel lle byddai'n pregethu am y tro olaf llawer o flynyddoedd yn hwyrach) a'i destun o 2 Corinthiaid 12.9: 'Digon i ti fy ngras i'.

Er iddo geisio cymhwyso ei waith cynyddol fel pregethwr gyda'i waith fel chwarelwr am rai blynyddoedd, yn y diwedd fe adawodd y chwareli yn y 1890au cynnar. Symudodd gyda'i wraig a theulu ifanc o Bronturnor, ar ochr arall Afon Dwyfor ac yn gyfleus ar gyfer trenau i Flaenau Ffestiniog, i Fron-y-Wern yng nghanol Maentwrog. Ar bwys y tŷ roedd siop y pentref a gadwai William am weddill ei oes pan oedd ei ymrwymiadau pregethu yn caniatáu.

Oherwydd yn gyflym iawn sefydlodd William ei hun fel pregethwr cynorthwyol poblogaidd a hynny nid yn unig yn ei gymuned leol. Mewn gwirionedd daeth Cymru gyfan yn blwyf iddo. Ac nid Cymru'n unig, oherwydd roedd galw am ei wasanaeth ymysg y cymunedau Cymraeg yn Lloegr. Cafodd hyd yn oed ei wahodd dwywaith i ymgymryd â theithiau pregethu yn yr Unol Daleithiau, gwahoddiadau a wrthodwyd ganddo. Beth oedd cyfrinach ei lwyddiant?

Roedd ei ddiffyg addysg a'r ffaith ei fod wedi gweithio am lawer o flynyddoedd fel chwarelwr yn sicrhau ei fod yn gallu cyfathrebu'n hawdd â'i gynulleidfaoedd. Roedd ei bregethau'n codi allan o'i brofiad o fywyd beunyddiol yn y gymuned leol. Nid yw hyn yn golygu nad oedd dyfnder i'w bregethau. Er nad oedd William yn ysgolor academiaidd roedd e'n darllen



llynyddiaeth Gymraeg ac, fel y dangoswyd yn ei bregethau, roedd ganddo wybodaeth ddwfn o'r Beibl. Yn ychwanegol, gyda llais oedd yn gysurus iawn i glustiau ei wrandawyr, roedd ganddo'r gallu i bregethu'n effeithiol iawn. Yn wir, oherwydd y parch a deimlwyd tuag ato yn ei famwlad rhoddwyd iddo'r enw 'Telyn Meirion'. Yn y diwedd perswadiodd ei gyfeillion ef i gyhoeddi rhai o'i bregethau ar gyfer yr oesoedd a ddaw. Nid tasg hawdd oedd hon oherwydd nid oedd wedi arfer ysgrifennu ei bregethau. Cafodd y broblem ei datrys pan dderbyniodd gymorth gan un o'i feibion a rhai o'i gyfeillion agos i ysgrifennu wyth o'i bregethau. Cyhoeddwyd y gyfrol yn 1905 dan y teitl *Cyfraith y Tŷ*, gyda rhagair serchog gan y Parch. J. Price Roberts, brodor nodedig arall o Benmachno. Rhaid cofio, wrth gwrs, mai'r Wesleaid oedd y lleiaf o'r prif enwadau yng Nghymru. Hyd yn oed ym Mlaenau Ffestiniog roedd y Methodistiaid Calfinaidd yn llawer mwy niferus. Yn y llyfr *Hanes Plwyf Ffestiniog* (1882) rhoddir 16 o dudalennau i'r Calfiniaid, 8 i'r Annibynwyr a 2 yr un i'r Bedyddwyr a'r Wesleaid. Serch hynny, fel y dywedodd y Parch. R. T. Roberts mewn darlith am 'Telyn Meirion' llawer o flynyddoedd wedi marwolaeth William: 'Cafodd gynig i fod yn weinidog ar eglwys gydag enwad arall, ond glyny wrth Wesleiaeth a wnaeth'.

Yn ei ragair mynegodd y Parch. J. Price Roberts y gobaiith brwd y byddai llais William yn parhau i'w glywed am gyfnod hir. Yn anffodus, bu farw yn ei gartref ym Maentwrog pedair blynedd yn hwyrach, yn 63 blwydd oed, wedi salwch byr. Yn wir, ar 10 Mai 1909 nododd ei fab William yn ei ddyddiadur: 'Nhad yn stoppio pregethu'. Dau fis yn ddiweddarach, ar 13 Gorffennaf, adroddodd yn drist: 'Nhad yn marw am haner awr wedi haner dydd'. Roedd ei angladd ddydd Sadwrn 17 Gorffennaf yn achlysur cofiadwy, pan ymgasglodd mil o bobl tu allan i'w gartref, Bron-y-Wern am y gwasanaeth. Dywedodd awdur un adroddiad mewn papur newydd nad oedd ef erioed wedi gweld angladd debyg, fel y daeth un gweinidog ar ôl y llall ymlaen i dalu teyrnged i William Roberts. Gorffennodd gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd lleol ei gyfraniad gyda'r geiriau: 'Y mae i ninnau esiampl yn ei fywyd o werth egni ac ymroddiad nes dod i sefyll yn rheng flaenaf pregethwyr Cymru'. Syth wedyn symudodd y dyrfa enfawr i'r fynwent gyferbyn lle canwyd ffefryn emyn William, 'Pererin wyf yn teithio', ac emyn angladdol poblogaidd 'Bydd myrdd o ryfeddodau'.

Ymysg y rhai oedd yn bresennol y dydd hwnnw roedd dau o feibion William, sef Thomas Gwilym ac Evan, a'i wŷyr ifanc, William John. Mewn amser daeth y tri hyn i gyd yn weinidogion Wesleaid.

ALUN ROBERTS

## Gwilym R. Tilsley: Golygydd Yr Eurgrawn

Sylfaenwyd *Yr Eurgrawn Wesleyaidd* ar batrwm y cylchgrawn Saesneg, *The Arminian Magazine*, a sefydlwyd gan John Wesley. Yn 1933, yn dilyn sefydlu yr Eglwys Fethodistaidd bresennol yn annibynnol â gwahanol gyrff Methodistiaeth Brydeinig, y gellid olrhain eu tarddiad yn ôl at John Wesley, gollyngwyd yr ansoddair 'Wesleyaidd' o'r teitl, ac adnabyddwyd y cylchgrawn fel *Yr Eurgrawn*. Cyhoeddwyd ef yn fisol o 1809 hyd at 1961, pryd y cyhoeddwyd ef yn chwarterol. Yn dilyn gostyngiad mewn gwerthiant fe'i hunwyd â'r *Cristion* yn 1983.

Mewn cyfweiliad teledu â Dyfnallt Morgan dywedodd Tilsli ei fod wed cael blas mawr ar olygu y cylchgrawn Cymraeg hynaf, sef *Yr Eurgrawn*, am yn agos i ugain mlynedd. Afraid yw dweud y bu Tilsli yn olygydd barddol *Y Gwyllyddydd Newydd* am flynyddoedd lawer, ynghyd â'r *Glannau*, papur bro ardal Y Rhyl, Prestatyn ac Abergele, am gyfnod byr. Yn yr un cyfweiliad eglurodd ei fod o blaid cael un cylchgrawn crefyddol i'r enwadau i gyd.

Dilyn yn ôl troed D. Tecwyn Evans a wnaeth Tilsli pan benodwyd ef yn olygydd *Yr Eurgrawn*, yn 1966. Tecwyn oedd yn gyfrifol am ehangu gorwelion y cylchgrawn gan sicrhau cynnwys mwy llenyddol, cymdeithasol a chenedlaethol ei naws a'i apêl. Cyfraniad allweddol Tilsli i'r cylchgrawn hynafol hwn oedd adeiladu ar y sylfaeni a osodwyd gan ei ragflaenydd.

Ar ddechrau golygyddiaeth Tilsli gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i gyfrannu at lwyddiant y papur trwy anfon llythyrau'n mynegi barn ac awgrymiadau a fyddai'n ymestyn gorwelion y cylchgrawn ac ennyn diddordeb darllenwyr newydd. Roedd *Yr Eurgrawn* eisoes yn ymdrin ag ystod eang o bynciau megis ymgyrch UNESCO yn 1967, a apeliai am ddeunydd darllen i blant ac oedolion anlythrennog y trydydd byd. Trafodwyd yr apêl yn frwdfrydig a chafwyd ymateb cadarnhâol i'r ymgyrch.

Nod Tilsli yn ystod ei gyfnod fel golygydd oedd sicrhau y byddai pob rhifyn yn ddiddorol ac mor fuddiol â phosibl i'r cylch ehangaf o ddarllenwyr. Cadwodd ei addewid oblegid, nid yn unig cafodd cyfres o ysgrifau ar ddathlu 400 mlwyddiant cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg, gan William Salesbury, sylw haeddiannol gan y Parchedig O. E. Evans, ond gwelwyd cyhoeddi cyfres o ysgrifau ar bynciau amrywiol eraill megis 'Taith i'r Gorllewin Pell', i enwi dim ond un.

Ymdeimlir â brwdfrydedd Tilsli dros genedlaetholdeb yn *Yr Eurgrawn*, Haf 1972 (Cyfrol 164, t.78), pryd y gwnaed y cyfeiriad hwn at yr 'Arwisgo', 1969:

Daeth y deffroad i Gymru, a'r Genedl yn magu merthyron unwaith eto. Credodd nifer o Gymry ifanc fod eu gwlad a'u hiaith yn bethau y gellir dioddef drostynt yn ogystal ag elwa arnynt.

Yn anad dim, fodd bynnag, cyfraniad mwyaf Tilsli i'r *Eurgrawn* oedd agor y drws led y pen, i gynnwys gwahanol agweddau o'n diwylliant cenedlaethol. Byddai'n estyn gwahoddiad yn flynyddol am rywun cymwys i adolygu cynnwys *Cyfansoddiad a Beirniadaethau'r Eisteddfod Genedlaethol*. Ar ambell achlysur byddai'n mynegi barn bersonol, a hynny gydag afiaith.

O safbwynt personol, yr hyn fyddai'n cyfoethogi ansawdd y cylchgrawn, i mi, beth bynnag, fyddai'r cerddi, emynau a chyfeithiadau a ymddangosa'i'n gyson ynddo, rhai gan gydweithwyr a chyfeillion ac eraill oddi wrth aelodau unigol o gymdeithas. Fodd bynnag y cyfranwyr mwyaf teyrngar i'r cylchgrawn oedd gweinidogion Wesleaid, y mwyafrif ohonynt yn feirdd galluog.

Roedd Tilsli yn olygydd didwyll, brwdfrydig a chydwybodol. Byddai bob amser yn dewis a dethol ei ddeunydd yn ofalus yn ogystal â thrin a thrafod ei gyfranwyr a'i ddarllenwyr gyda doethineb a chwarteisi.

Yn ystod ei dymor fel golygydd *Yr Eurgrawn*, llwyddodd Tilsli i gyfuno crefydd a llenyddiaeth ac o ganlyniad gyflwyno cylchgrawn chwaethus a diddorol ar lawer ystyr. Yn ei ysgrifau golygyddol mynegwyd barn gytbwys a phendant ar bynciau'r dydd, yn arbennig ar faterion yn ymwneud â Chymru, Cymreictod a Chrefydd. O bryd i'w gilydd ymdeimlwyd a'i dristwch personol wrth weld y dirywiad cynyddol ym mhob agwedd o'r bywyd Cristionogol. Teimlai'n gryf dros hawliau Cymry Cymraeg i arddel ac ymarfer yr iaith ym mhob agwedd o fywyd cymdeithasol. Credai Tilsli mai sarhad ar y genedl oedd cael eu gorfodi i ymgyrchu dros yr hyn a ddylai fod yn rhywbeth naturiol.

Yn anad dim, roedd ei gariad a'i ymlyniad at fywyd diwyllianol Cymru, yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol, yn heintus. Fel golygydd *Yr Eurgrawn*, daeth y cyfle i'w ran i ymestyn cyfoeth a chyhoeddusrwydd y sefydliad unigryw hwn i Gymru benbaladr. Bu'n weithgar a brwdfrydig ac efallai y gwelir *Yr Eurgrawn* gan lawer yn gylchgrawn llenyddol yn ogystal â chrefyddol a'i apêl yn deffro diddordeb cymdeithas gyfan.

ELERI HUGHES

*Seilir yr erthygl hon ar bennod yn nhraethawd M.A. yr awdur ym Mhrifysgol Bangor yn 2010.*

# Plan Caerdydd 1887

Mae casgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth yn cynnwys llawer o Blaniau o gylchdeithiau ledled Cymru. Efallai yr un mwyaf trawiadol yw'r Plan a gyhoeddwyd gan Gylchdaith Wesleiaidd Gymraeg Caerdydd am Chwefror-Ebrill 1887. Teitl y Plan yw: *Rhagnodydd Sabbothol ac Wythnosol Pregethwyr y Trefnyddion Wesleyaidd yn Nghylchdaith CAERDYDD...* Er bod y rhan fwyaf o'r Planiau Cymraeg yn y Llyfrgell Genedlaethol yn defnyddio'r gair 'Plan' mae'n amlwg nad oedd y Parch. Peter Jones (B), fel nifer o Arolygwyr eraill, yn fodlon i fabwysiadu'r gair Saesneg. Defnyddiwyd nifer o eiriau eraill gan Arolygwyr o dro i dro, gan gynnwys 'Rhagnodiad', 'Rhaghysbysydd' a 'Cynllun', ond ni ddaeth yr un ohonynt yn boblogaidd ymysg y Wesleiaid yn gyffredinol.

Mae'r Plan yn rhestru'r trefniadau ar gyfer y pump capel yn y Gylchdaith, sef Caerdydd, Llancarfan, Cadoxton (Tregatwg), Tredelerch a Llandaf. Yn ôl arfer y cyfnod ceir rhif yn erbyn enw pob gweinidog a phregethwr cynorthwyol ar restr y pregethwyr, a'r rhifau hyn a ddefnyddir ar y Plan. Roedd


Owen Owen (1812-87). Teithiodd yn bennaf yn Ne Cymru a daeth yn Uwchrif yn 1878. Ar adeg y Plan roedd yn byw ym Mhontypridd. Bu farw yn Nhachwedd 1887. Yn ddiddorol, nid oedd yn fodlon ar dir egwyddor i gyfrannu braslun o hanes ei fywyd i'r llyfr, ond roddwyd nodyn fach amdano gan y golygydd.

Wedyn, yn null cloc, y tri arall yw:

Y Parch. David Evans, *Degar* (1824-84). Ganwyd yn Nhrefegar. Roedd yn Gadeirydd Talaith Deheudir Cymru o 1874 hyd 1880, a daeth yn Uwchrif yn 1881. Bu farw yn Abertawe ym Medi 1884.

Y Parch. Timothy Jones (18??-90). Ganwyd yn Llandysul. Dechreuodd deithio yn 1840 ar ôl cyfnod sylweddol fel gwas cyflog mewn nifer o gylchdeithiau. Teithiodd yn Ne Cymru, gan ddod yn Uwchrif yn 1870. Ymddeolodd i Abertawe lle bu farw yn Chwefror 1890.

Y Parch. John Rees (1810-98). Ac eithrio dwy flynedd yn Llundain yn yr 1840au teithiodd yn Ne Cymru trwy gydol ei weinidogaeth. Daeth yn Uwchrif yn 1873. Bu farw ym Mhontypridd yn 1898.



## RHAGNODYDD SABBOTHOL AC WYTHNOSOL

# Pregethwyr y Trefnyddion Wesleyaidd,

Yn Nghylchdaith CAERDYDD, am y misoedd dyfynol yn 1887.

The CARDIFF Welsh Wesleyan Methodist Circuit Plan, for 1887.

LEOEDD.	CHWEFROR. (February.)	MAWRTH. (March.)	EBRILL. (April.)				PREGETHWYR.
			6	13	20	27	
CAERDYDD	10a 5 1b 11 8a 5 1a 1 8c 5 1a 12 8a	10a 5 1b 11 8a 5 1a 1 8c 5 1a 12 8a	10a 5 1b 11 8a 5 1a 1 8c 5 1a 12 8a	10a 5 1b 11 8a 5 1a 1 8c 5 1a 12 8a	1 P. JONES, ..... Caerdydd.		
Nos Lun	7 27	7 27	7 27	7 27	2 D. YOUNG, ..... Ferndale.		
Nos Fferch	CP	CP	CP	CP	3 J. HUMPHREYS, ..... Porth.		
Nos Iau	1 26 8	1 26 8	1 26 8	1 26 8	4 J. REES, ..... Pontypridd.		
LLANARVAN	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	5 O. OWEN, ..... Pontypridd.		
Engl Ffreching ..	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 R. F. CAPE, ..... Caerdydd.		
Nos Iau	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 L. RAILTON, ..... Canton.		
Nos Sa	CP	CP	CP	CP	8 L. Lewis, ..... Caerdydd.		
CADOXTON	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	9 J. Price, ..... Rhydri.		
Engl Ffreching ..	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10 J. Rees, ..... Llandaf.		
Nos Iau	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	11 L. Evans, ..... Caerdydd.		
Nos Sa	CP	CP	CP	CP	12 W. Griffiths, ..... Llancarfan.		
TREDERCH	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	FROM ENGLISH CIRCUITS.		
Engl Ffreching ..	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	13 J. Foster, ..... Cardiff.		
Nos Iau	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	14 F. J. Jenkins, ..... do.		
Nos Sa	CP	CP	CP	CP	15 E. White, ..... do.		
LLANDAF	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	10a 12 8b GD 26a 1a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	16 T. Berwick, ..... do.		
Engl Ffreching ..	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	6 13 8b GD 26 1 a GD 8 26c 1 a GD 8 26a	17 M. Dunn, ..... do.		
Nos Iau	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	7 27 8 26 8	18 R. Dunn, ..... do.		
Nos Sa	CP	CP	CP	CP	19 E. Rowe, ..... do.		


**ARWYDDNODAU—**  
a, wper yr Arglwydd. CP, Cyfarfod Parotoad. BH, Band of Hope. GD, Gwr Dyethr. f, Amddau o gloch.

— : o : —

**CASGLIADAU—**  
a, Ayl Weinidogaeth. b, At y Capell, c, At Addysg.

**HYSBYSIADAU—**  
Cynhelir Cyfarfod Chwarterol y Gylchdaith yn Nghaerdydd, Ebrill 2fed, 1887, am 8.30 y prydawn. Darperir Teu am bump o'r gloch. Taer erfynw am i bob Eglwysanfon cynrychioliwyr. Disgwylir i bob Pregethwr gadw ei blau, neu ofalu am rywun teulung yn ei le. Dydd Ymryd Chwarterol y Cyfundeb yw Mawrth 25ain. Gellir cael yr *Eurgrawn*, y *Wyllan*, a'r *Gwylidiedydd*, gan Mr John Roberts, 5, Woodville Road, Cathays.

26 Cyfarfod Gweddio.  
27 Cyfarfod Gweddio Cenhadol.  
**P. JONES, (b).**



tri o'r capeli yn darparu gwasanaeth Saesneg ar nos Sul a chawsant gymorth gan bregethwyr o gylchdeithiau Saesneg yn ôl yr angen.

Yr hyn sy'n gwneud y Plan yn anghyffredin yw'r engrafiadau. Maent yn dangos pedwar gweinidog. Gan nad yw eu henwau o dan y lluniau mae'n amlwg byddai defnyddwyr y Plan yn eu nabod yn dda gan eu bod i gyd yn enwog yn Ne Cymru. Mewn gwirionedd, roedd y lluniau hyn wedi ymddangos mewn llyfr dan olygiaeth y Parch. John Davies (B) a gyhoeddwyd yn 1884 gyda'r teitl: *Pregethau yr Uwchrifiadau Wesleyaidd Cymreig, yn 1881-82, gyda darluniau o honnynt, ynghyda braslun o hanes eu bywyd wedi ei ysgrifenu ganddynt hwy eu hunain.*

Y gweinidog ar ben uchaf y Plan ar y chwith yw'r Parch.

Dyma'r unig Plan a welais gyda'r engrafiadau hyn, ond mae'n debyg byddent wedi'u defnyddio ar Blaniau eraill. Gan fod Planiau mor fregus mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi diflannu. Serch hynny, fel y gwelir ar y Plan hwn, maent yn cynnwys llawer o wybodaeth sy'n ddiddorol a defnyddiol i'r hanesydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn hen Blaniau'r Methodistiaid ym Mhrydain efallai hoffech wybod am Gymdeithas y Cylchblanolegwyr, sef The Society of Cirplanologists a sefydlwyd yn 1955 ac sy'n cyhoeddi cylchgrawn gyda'r teitl *Cirplan* dwywaith y flwyddyn. Y tanysgrifiad yw £2 y flwyddyn a'r cyswllt yw Mr K. F. Bowden, 'Cadeby', 34 Fernhill Crescent, Stacksteads, Bacup, Lancs. OL13 8JU.

LIONEL MADDEN